Cyngor Abertawe
Swansea Council

# Amodau a Thelerau'r Theatr Awyr Agored

Mae'n rhaid i bawb sy'n ymweld â'r digwyddiad hwn ddilyn yr amodau a thelerau canlynol.

**Mae'n ofynnol i'r rheini sy'n bresennol ddilyn holl ganllawiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i leihau ymlediad COVID-19, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb a golchi dwylo. Gwiriwch y canllawiau diweddaraf yn: https://llyw.cymru/coronafeirws**

**PEIDIWCH Â MYND I'R DIGWYDDIAD OS OES GENNYCH UNRHYW UN O'R SYMPTOMAU COVID-19 CANLYNOL**

- **tymheredd uchel**
- **peswch parhaus newydd**
- **colli synnwyr arogli neu flasu neu brofi newid iddynt**

## Yn y Lleoliad

1. Mae'n rhaid bod gan bawb sy'n mynd i'r Theatr Awyr Agored docyn dilys y mae'n rhaid ei gadw bob amser a'i gyflwyno i'w archwilio os gofynnir i chi wneud hyn gan unrhyw aelod o staff. Gall methu â chyflwyno tocyn dilys ar gais olygu y bydd yn rhaid i chi adael y lleoliad.

2. Lle mae prisiau tocynnau'n amrywio yn ôl oedran a pherfformiad. Mae'r darpariaethau canlynol yn berthnasol:
Caiff person 16 oed neu'n hŷn ei ystyried yn oedolyn
Ystyrir person 3 i 15 oed yn blentyn; ac
Ni chodir ffi fynediad ar gyfer plant dan 3 oed

3. Cynhelir y digwyddiad ar safle maes glas a gall y tir fod yn anwastad. Byddwch yn ofalus wrth symud o gwmpas y safle, yn enwedig gyda chadeiriau olwyn neu fygis.

4. Mae Cyngor Abertawe yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i ddeiliaid tocynnau i'r lleoliad mewn amgylchiadau rhesymol, sy'n cynnwys iechyd a diogelwch, pryderon amgylcheddol neu ddiogelwch, rhesymau trwyddedu, neu lle mae tocyn yn annilys. Mae Cyngor Abertawe hefyd yn cadw'r hawl i ofyn i ddeiliaid tocynnau adael y lleoliad ar unrhyw adeg am resymau rhesymol a gall gymryd unrhyw gamau priodol i orfodi'r hawl hon heb ad-daliad.

5. Nid yw tocynnau'n rhoi'r hawl i ddeiliad y tocyn ddychwelyd i'r safle unwaith y bydd deiliad y tocyn wedi gadael drwy'r gatiau.

6. Rhaid i blant dan 12 oed fod yng nghwmni oedolyn.

7. Efallai y bydd effeithiau mwg, goleuadau strôb, laserau a synau uchel yn cael eu defnyddio yn y digwyddiad.

8. Ni chaniateir smygu yn unman yn yr ardal gynhyrchu, mae hyn yn cynnwys e-sigaréts.

9. Gall deiliaid tocynnau ddod â’u picnic eu hunain, mae hyn yn cynnwys blancedi picnic, cadeiriau etc. Ni chaniateir diodydd alcoholig ond gellir eu prynu yn y digwyddiad. O ran diogelwch, peidiwch â dod ag eitemau gwydr, canhwyllau na ffaglau wedi'u cynnau. (Yn unol â Rheoliadau Trwyddedu, rhaid i ddeiliaid tocynnau fod dros 18 oed i yfed alcohol yn y lleoliad)

10. Mae Cyngor Abertawe'n cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau i'r manylion a hysbysebir ar gynnwys y digwyddiad.

11. Mae deiliaid tocynnau'n rhyddhau'r trefnwyr (Cyngor Abertawe) o unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i eiddo personol a allai ddeillio o'r digwyddiad. Ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ni fydd unrhyw atebolrwydd ar y trefnwyr i ddeiliaid tocynnau.

12. Mae deiliaid tocynnau'n rhoi caniatâd i gael eu ffilmio, i gael eu lluniau wedi tynnu a'u recordio ac yn deall efallai y gall ffotograffau, ffilmiau neu recordiadau gael eu darlledu, eu cyhoeddi, eu trwyddedu neu eu defnyddio am byth (heb daliad).

13. Mae deiliaid tocynnau'n cytuno y bydd unrhyw ddelweddau, fideos neu recordiadau sain a geir yn y digwyddiad yn cael eu defnyddio at ddibenion preifat a domestig yn unig ac ni allant gael eu defnyddio at unrhyw ddibenion masnachol, ar y rhyngrwyd neu fel arall.

14. Trwy ddod i’r digwyddiad, mae’r holl ddeiliad tocynnau’n cadarnhau y caiff eu henwau a/neu fideos neu luniau a gymerwyd yn ystod y digwyddiad eu defnyddio i hyrwyddo’r digwyddiad neu ddigwyddiadau Dinas a Sir Abertawe

15. Ni all deiliaid tocynnau gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd y mae trefnwyr ynystyried ei fod yn ymwneud â marchnata neu hysbysebu anawdurdodedig (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, farchnata unigol neu grŵp). Mae gan y trefnydd yr hawl i wrthod mynediad, neu i ofyn i rywun adael y lleoliad os nad yw'n cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn.

16. Dim ond cŵn gwasanaeth a ganiateir yn y cynyrchiadau. Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra.

## Tocynnau

**Pe bai'r digwyddiad yn cael ei ganslo, o ganlyniad i newid yn rheoliadau COVID-19 Llywodraeth Cymru, rhoddir ad-daliad llawn.** (Nid yw hyn yn cynnwys

ffïoedd archebu a chostau postio)

1. Ni chaiff tocynnau eu gwerthu (gan gynnwys ocsiwn) na'u hysbysebu i'w gwerthu. Ni ellir defnyddio tocynnau at ddibenion hysbysebu, hyrwyddo, codi arian na marchnata (gan gynnwys mewn cystadlaethau ac mewn swîps).

2. Mae deiliaid tocynnau yn deall y gall y trefniadau ar gyfer y digwyddiad gael eu heffeithio gan amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr, a all arwain at oedi, gohirio neu ganslo'r digwyddiad heb rybudd. Ni fydd gan y trefnwyr unrhyw atebolrwydd i ddeiliaid tocynnau o ran y fath oedi, ohirio neu ganslo.

3. Os bydd rhaid canslo, gwneir pob ymdrech i aildrefnu'r digwyddiad ar ddyddiad arall. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni roddir ad-daliadau ar gyfer y dyddiad gwreiddiol. Os nad oes modd aildrefnu'r digwyddiad, caiff tocynnau eu had-dalu o'r ffynhonnell brynu yn ôl eu hwynebwerth. Ni roddir ad-daliadau mewn perthynas â ffioedd archebu na chost postio.

**Polisi Tywydd Gwlyb**

1. Yn gyffredinol, ni fydd glaw yn atal perfformiadau; byddant yn mynd yn eu blaenau yn ôl yr amserlen Fodd bynnag, cynghorir yr holl ddeiliad tocyn i ddarparu ar gyfer tywydd gwlyb.

2. Bydd digwyddiad neu ran o ddigwyddiad ond yn cael ei ganslo os bydd y trefnwyr yn meddwl bod amodau'r tywydd yn peryglu iechyd a diogelwch.

Os caiff digwyddiad ei ganslo, ar nad yw hyn yn debygol, caiff gwybodaeth ei phostio ar:

- Wefan y digwyddiad yn www.croesobaeabertawe.com
- Drwy Twitter @BaeAbertawe @CyngorAbertawe
- Ar Facebook www.facebook.com/dewchifaeabertawe

3. Gwneir pob ymdrech i gysylltu â chwsmeriaid sydd wedi archebu tocynnau ymlaen llaw, ond eu cyfrifoldeb hwy yw gwirio'r wefan ddigwyddiadau i gadarnhau'r sefyllfa. Sylwer: oherwydd amodau tywydd sy'n newid, mae digwyddiadau'n debygol o gael eu canslo ar fyr rybudd.

4. Os caiff perfformiad ei ganslo cyn yr amser dechrau a gafodd ei hysbysebu neu ar unrhyw adeg cyn hanner ffordd trwy'r perfformiad, caiff perfformiad arall o werth cyfartal ei gynnig. Os na fydd y cyngor yn gallu cynnig perfformiad arall, caiff wynebwerth y tocyn ei ad-dalu o'r man prynu.

5. Os caiff y digwyddiad ei ganslo yn ystod ail hanner y perfformiad, ni chaiff unrhyw ad-daliadau neu berfformiadau eraill eu cynnig.